# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, Dydd Iau, 10 Ionawr 2013 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Richard Davies, Huw Hilditch-Roberts, Colin Hughes (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Dewi Owens, Arwel Roberts (Is-Gadeirydd), Gareth Sandilands a/ac C. Burgess, G. Greenland, D. Houghton and N. Lewis.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Pennaeth Addysg (KE), Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd (JM), Rheolwr Gwella Corfforaethol (TW), Cydgysylltydd Rhwydwaith Addysg 14-19 (JG), Pennaeth Coleg Llandrillo (JD), Coleg Llandrillo/Cyfarwyddwr y Rhyl (CJ), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Cydgysylltydd Craffu (RE) a'r Swyddog Gweinyddol (CIW).

Croesawodd y Cadeirydd Ms Nicola Lewis i'r cyfarfod ar ôl ei phenodi fel Aelod Cyfetholedig Addysg, Rhiant-Lywodraethwr – Cynradd a Mrs Debra Houghton a oedd wedi ei phenodi fel cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr y Sector Uwchradd. Tan yn ddiweddar, roedd Mrs Houghton wedi bod yn gynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr y Sector Cynradd ar y Pwyllgor Craffu. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd bod Dr Dawn Marjoram, nad oedd yn anffodus yn medru mynychu'r cyfarfod, wedi ei hail-benodi yn ddiweddar fel cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr y Sector Anghenion Addysg Arbennig. Hefyd, croesawodd aelodau'r Tîm Cyfnewid Dysgu gan Gymheiriaid o Gyngor Sir y Fflint, a chynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn arsylwi'r cyfarfod fel rhan o Astudiaeth Gwella Gwaith Craffu Swyddfa Archwilio Cymru.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)
Ian Armstrong, Meirick Davies, Dr. D. Marjoram, Peter Owen a/ac Allan Pennington

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganodd unrhyw Aelod unrhyw fuddiannau personol na rhagfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

NI chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 29ain Tachwedd 2012.

Materion yn codi:-

5. Cofrestr Risgiau Corfforaethol – Esboniodd y Cynghorydd H. Hilditch-Roberts, o ran risg gorfforaethol, iddo godi mater goblygiadau cyfreithiol ac ariannol posibl i'r Cyngor ar ôl y tywydd drwg yn Rhuthun.

8. Safonau Gwasanaeth Llyfrgell: Adroddiad Blynyddol 2011/12 – Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor bod Cyngor Cymuned Henllan mewn cyfarfod yn ddiweddar wedi canmol y Gwasanaeth Llyfrgell ar lefel a safon y ddarpariaeth yn yr ardal.

10. Rhaglen Waith Craffu – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd A. Roberts ynglŷn â'r problemau a gafwyd gyda chyflwyno'r cynllun biniau ar olwynion x2, cyfeiriodd y Cydgysylltydd Craffu at dudalen 5 y Nodiadau Briffio ac esboniodd y byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwylgor Craffu Cymunedau ar 28ain Chwefror 2013. Cyfeiriodd hefyd at Atodiad 4 Blaenraglen Waith y Pwyllgor, a oedd yn manylu cynnydd mewn perthynas â phenderfyniadau'r Pwyllgor, a chadarnhawyd bod y sefyllfa wedi gwella ac yn parhau i wella.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 COLEG LLANDRILLO A DYSGWYR SIR DDINBYCH

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad PowerPoint gan Jackie Doodson, Pennaeth Coleg Llandrillo a Celia Jones, Cyfarwyddwr Coleg Llandrillo – y Rhyl, yn manylu ar berfformiad myfyrwyr 16-19 Sir Ddinbych a oedd wedi eu cofrestru yng Ngholeg Llandrillo Cymru.

Amlygodd y cyflwyniad y pwyntiau perthnasol a'r meysydd canlynol:-

- Strwythur Grŵp – Coleg Menai, Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Llandrillo.
- Strwythur Llandrillo – amlygwyd Campws y Rhyl a Chweched y Rhyl.
- Ffeithiau a Ffigurau Coleg Llandrillo – Amlygwyd amcangyfrifon.
- Myfyrwyr Sir Ddinbych (llawn-amser (FT): 16-19) - Yn Rhos, Campws Dinbych, Chweched y Rhyl, Campws y Rhyl a Champws Abergele. Cynnydd yn y niferoedd yn y Rhyl a gostyngiad yn Rhos.
- Dewis Pynciau – ar gampysau heb fod yn Sir Ddinbych.
- Darpariaeth 14-16 (Sir Ddinbych) – Llwybrau Galwedigaethol 14-16 a 14-16 FT (EPIC) ar gyfer 2011/12 a 2012/13.
- Llwyddiant Myfyrwyr – Cyfanswm mewn perthynas â Choleg Dinbych, Coleg Abergele, Chweched y Rhyl, Coleg y Rhyl a Llandrillo.
- Y Rhyl mewn Cyd-destun – lefelau cyrhaeddiad ar gyfer Ysgol Uwchradd y Rhyl, Bendigaid Edward Jones, Abergele, Cyfartaledd Pwysedig Ysgolion y Rhyl a Chweched y Rhyl.
- Partneriaeth Chweched y Rhyl a Phrestatyn – Cyrsiau a gynigir ar y cyd ôl-16 a dewis ehangach.

- Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd – Myfyrwyr Sir Ddinbych FT 2011/2012.
- Gwelliannau parhaus – manylion gwella

Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, roedd Coleg y Rhyl, myfyrwyr a staff, wedi derbyn nifer o wobrau a llwyddiannau nodedig, gan gynnwys:-

- ➢ Prentis Modurol Ifanc y Flwyddyn yn y DU (2009).
- ➢ Terfynwr DU Sefydliad Diwydiant Modurol Canolfan Peirianneg Fodurol y Flwyddyn (2009)
- ➢ Academi Genedlaethol Sgiliau Manwerthu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (2010)
- ➢ Colegau Cymru Athro AB y Flwyddyn (2012)
- ➢ Partneriaeth unigryw Ysgolion/Colegau Cymru gyfan – Uwchradd Prestatyn a Chweched y Rhyl – yr unig bartneriaeth lle mae myfyrwyr coleg yn astudio mewn lleoliad ysgol
- ➢ Terfynwyr – Menter Ieuenctid (Subo Soux) ac enillwyr y categorïau stondin fasnach orau a gwasanaeth cwsmeriaid gorau (2012)

Ymatebwyd fel a ganlyn i gwestiynau a materion a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:-

- Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan Ms C. Burgess, esboniodd Cyfarwyddwr Coleg Llandrillo y Rhyl (CLDR) bod amserlen mwy strwythuredig wedi ei chyflwyno a bysus ychwanegol wedi eu darparu i ddelio â phroblemau cludiant a brofwyd gan fyfyrwyr. Esboniodd y Cydgysylltydd Rhwydwaith Addysg 14-19 (ENC) bod dolen wedi ei dodi ar Facebook y gellid ei defnyddio gan fyfyrwyr i gyflwyno manylion problemau, megis materion cludiant, a oedd yn bodoli.

- Mewn ateb i gwestiwn gan y Cynghorydd A. Roberts ar gysylltiadau ag Ysgol Glan Clwyd, esboniodd y CLDR eu bod yn gweithio'n agos â Phartneriaeth Dyffryn Clwyd, a oedd yn cynnwys Ysgol Glan Clwyd, Ysgol Uwchradd Dinbych a Choleg Dinbych. Amlygodd waith a oedd yn cael ei wneud gan Goleg y Rhyl mewn perthynas â'r cwricwlwm 14-16 a oedd yn caniatáu ymestyn y cwricwlwm, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Ymatebodd y CLDR fel a ganlyn i gwestiynau gan y Cynghorydd D. Owens:-

- ➢ Darparwyd manylion materion ariannu yn ymwneud â phryderon mewn perthynas â chyllid grant 14-19, cyllid Ewropeaidd a gwaith partneriaeth mewn ysgolion, yn enwedig mewn perthynas â dirywiad mewn cymwysterau galwedigaethol. Amlinellodd Pennaeth Coleg Llandrillo (PCL) y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan yr ENC i oresgyn a chwalu, trwy gyfathrebu da a gwaith partneriaeth, unrhyw rwystrau a oedd yn codi.
- ➢ Esboniwyd bod diffyg cynrychiolaeth o Sir Ddinbych ar y Bwrdd wedi ei gydnabod ond y byddai'n anodd delio â hynny nes byddai swydd wag yn codi. Darparwyd amlinelliad o'r broses o benodi aelodau a chadarnhawyd bod llythyr wedi ei anfon at Sir Ddinbych ar y mater hwn.
- ➢ Rhoddwyd manylion ffigurau sgiliau llythrennedd a rhifedd, mewn perthynas â Sir Ddinbych, gan y PCL.

- Ymatebodd y PCL i gwestiynau gan y Cynghorydd G. Sandilands yn amlinellu'r dolennau cyswllt gydag Ysgol Uwchradd Prestatyn. Rhoddodd fanylion y broses a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal perfformiad effeithiol mewn perthynas â'r ysgol a chadarnhaodd bod gwelliannau arwyddocaol wedi eu cyflawni yn y maes hwn. Cadarnhaodd y CLDR bod partneriaeth waith gadarn yn bodoli gyda'r ysgol.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd G. Lloyd-Williams at uno Colegau yn y Grŵp yn ddiweddar ac amlinellodd y CLDR y manteision a gafwyd. Fodd bynnag, esboniodd y byddai'n anodd rhagweld neu ddarogan a fyddai unrhyw uno pellach yn digwydd.

- Esboniodd y Cynghorydd H. Hilditch-Roberts y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor dderbyn manylion yn ymwneud â chofrestru myfyrwyr o flwyddyn i flwyddyn a ffigurau cymwysterau a gafwyd. Gofynnodd hefyd bod manylion cost addysgu myfyriwr yn cael ei ddarparu er gwybodaeth. Esboniodd y CLDR bod fframwaith o gostau yn ymwneud ag unedau dysgu a oedd yn amrywio, yn dibynnu ar y pwnc unigol.

- Ymatebodd y CLDR i gwestiwn gan y Cynghorydd R.J. Davies a chadarnhau os oedd y gofyn am gwrs penodol ar un campws yn cynyddu ac yn gostwng ar gampws arall, bod staff yn hyblyg yn eu harferion gwaith er mwyn diwallu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth. Cadarnhaodd hefyd bod bodolaeth safle'r Rhyl wedi cael effaith fanteisiol ar yr economi lleol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E W Williams at fframwaith posibl strwythur y coleg yn y dyfodol, a theimlai y gallai wella lefel y dewis a nifer yr opsiynau a oedd ar gael i fyfyrwyr yn Sir Ddinbych. Teimlai y byddai'n bwysig cyfleu i Lywodraeth Cymru ac i Lywodraeth Ganolog bwysigrwydd cynnig cyfle i fyfyrwyr i gael cyrsiau galwedigaethol a thraddodiadol, y gellid ei wneud trwy waith partneriaeth. Pwysleisiodd y Pennaeth Addysg bwysigrwydd cael cwricwlwm eang i'w gynnig i fyfyrwyr. Roedd gwaith partneriaeth gyda'r colegau a chydgysylltiad yr holl randdeiliaid yn hanfodol i sicrhau bod myfyrwyr Sir Ddinbych yn rhagori yn y meysydd roeddynt yn dewis eu hastudio.

Diolchodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor i Bennaeth Coleg Llandrillo a Chyfarwyddwr Coleg Llandrillo, y Rhyl, am eu cyflwyniad manwl, llawn gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor yn derbyn y cyflwyniad ac yn cydnabod y cynnwys.*

## 6 CANLYNIADAU ARHOLIADAU CA4

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd a oedd yn dilysu perfformiad arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16, ac yn darparu dadansoddiad o ganlyniadau o gymharu â gwybodaeth a pherfformiad a feincnodwyd yn erbyn awdudordau lleol eraill, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd (SEPO:S) yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth ar berfformiad asesiadau athrawon ac

arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych. Roedd yr holl ddanogsyddion allweddol yn CA4 ar gyfer cymwysterau allanol wedi gwella yn ystod y flwyddyn i fod yn y deg a oedd yn perfformio orau yng Nghymru. Bu gwelliant arwyddocaol ym mhob dangosydd ers 2010, yn enwedig Trothwy Lefel 2 a Lefel 2 gan gynnwys Saesneg, Cymraeg a Mathemateg. Cynhwyswyd crynodeb o Safleoedd Asesiadau ac Arholiadau yn yr adroddiad.

Esboniwyd mai'r dangosydd perfformiad allweddol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 oedd Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg, Cymraeg a Mathemateg. Roedd manylion canran disgyblion yn cyflawni Lefel 2, a pherfformiad ysgolion unigol, wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Roedd Trothwy Lefel 2 yn nodi nifer y disgyblion a oedd yn cael 5 TGAU A*-C neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol, ac roedd hyn yn disodli'r dangosydd 5A*-C a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Canran disgyblion yn cael Trothwy lefel 2 oedd 83%, a oedd 10% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yr oedd dangosydd Lefel 2 wedi cynyddu yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych ac roedd yn dodi Sir Ddinbych yn gyntaf yng Nghymru yn 2012, ac roedd hyn wedi bod yn welliant mawr wrth symud o 18fed yn 2010. Pwysleisiodd y Pennaeth Addysg bwysigrwydd canolbwyntio ar welliannau a gafwyd mewn perthynas â Throthwy Lefel 2, a chyfeiriwyd yn benodol ar broffil cyrhaeddiad disgyblion, y llwyddiant a gafwyd mewn ysgolion arbennig a'r gwelliannau a welwyd yn ysgolion y Rhyl. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig peidio â mynd yn hunanfodlon, er mwyn sicrhau cynnal lefelau gwella.

Cadarnhaodd y SEPO:S bod yr holl ysgolion wedi gwella eleni gyda'r Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Uwchradd y Rhyl yn gweld y cynnydd uchaf, sef 22% a 25% yn eu tro ar gyfer Trothwy Lefel 2. At hyn roedd Ysgol Uwchradd Prestatyn (91.%), Ysgol Dinas Bran (98.%), Ysgol Glan Clwyd (91%) ac Ysgol Santes Ffraid (96%) oll wedi cyflawni dros 90% ar gyfer Trothwy Lefel 2. Gadawodd deg disgybl (0.8%) yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig yn 2012 ac roedd hyn wedi gosod Sir Ddinbych y 18fed yng Nghymru. Nodwyd manylion llwyddiannau canlyniad arholiadau disgyblion o Ysgol Plas Brondryffyn ac Ysgol Tir Morfa yn yr adroddiad.

Roedd Llywodraeth Cymru yn defnyddio Bandiau fel ffordd o ddefnyddio data cenedlaethol ar berfformiad ysgolion mewn cyd-destun i grwpio ysgolion yn ôl lle 'roeddynt ar eu taith tuag at wella o gymharu ag ysgolion eraill yng Nghymru. Roedd ysgolion Band 1 yn dangos perfformiad a chynnydd cyffredinol da, a rhai ym Mand 5 yn dangos perfformiad a chynnydd gwael o gymharu ag ysgolion eraill. Roedd proffil bandiau ysgolion Sir Ddinbych yn 2012 wedi gwella ac roedd pob ysgol ym Mand 2 ac eithrio Ysgol Dinas Bran, a oedd yn aros ym Mand 1 ac Ysgol Uwchradd Dinbych, a oedd wedi gwella o Fand 4 i Fand 3.

Y dangosydd perfformiad ar gyfer ôl-16 oedd Trothwy lefel 3, a oedd yn cyfateb â 2 Lefel A neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol, ac roedd canlyniadau ôl-16 wedi aros fwy neu lai yn sefydlog.
Roedd canran ymgeiswyr yn cael Trothwy Lefel 3 wedi gwella 3% i 99% yn 2012 ac roedd hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 97%. Roedd sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi gwella i 694 yn 2012, ond roedd hyn islaw cyfartaledd Cymru, sef 773. Roedd canran graddau A ac A* wedi syrthio i 19.4% yn 2012 o 22.5% yn 2011 a chyfartaledd Cymru oedd 23.6%.

Roedd nifer ymgeiswyr a gafodd Ddiploma Uwch Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi syrthio. Fodd bynnag, roedd y cymhwyster wedi ei gymryd gan nifer arwyddocaol uwch o ddisgyblion yn 2012. Cyfeiriodd y SEPO:S at y rhwydwaith o ysgolion a chadarnhaodd nad oeddynt wedi creu effaith negyddol a bod problemau cychwynnol, megis problemau cludiant, wedi eu trin.

Hysbyswyd yr Aelodau bod Gwella Perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion yn un o Flaenoriaethau Corfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2012-17. Amlinellwyd manylion risgiau posibl, a’r camau a gymerwyd i’w lleihau, yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd A Roberts at ddarganfyddiadau archwiliad Estyn yn ddiweddar yn ysgol Clocaenog a oedd yn cadarnhau’r casgliadau mewn perthynas â’r cynnydd a wnaed mewn blynyddoedd diweddar gyda chyflwyniad addysg yn y sir. Amlinellodd y Pennaeth Addysg y ffactorau a oedd yn cyfrannu tuag at gael gwelliannau arwyddocaol, gan gyfeirio’n benodol at ysgolion yn y Rhyl. Pwysleisiodd fanteision gwaith partneriaeth ag ysgolion a’r strategaethau cadarn a fabwysiadwyd i gael gwelliannau a chynnydd parhaus. Cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio Mewnol at yr adroddiad archwilio mewnol mewn perthynas ag Ysgol Uwchradd y Rhyl a phwysleisiodd y gwelliannau a gafwyd o ran perfformiad a rheoli’r ysgol. Esboniodd y Cynghorydd E.W. Williams bod y llwyddiant i raddau arwyddocaol wedi ei ddylanwadu gan y £1.2m a fuddsoddwyd mewn Addysg ddwy flynedd ynghynt i wella’r gwasanaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H. Hilditch-Roberts at y risgiau posibl yn deillio o’r heriau, o ran arwain, rheoli a Phenaethiaid a’r angen i sicrhau cynnydd cadarnhaol. Pwysleisiodd hefyd yr angen i broffilio Llywodraethwyr Ysgol pan gânt eu penodi ac ystyried achrediad ar gyfer arweinyddiaeth mewn perthynas â Phenaethiaid. Cydnabu’r Pennaeth Addysg yr heriau mewn perthynas â chadw'r sefyllfa bresennol mewn cysylltiad â Dangosydd Lefel 2. Cyfeiriodd at effeithiau newid carfanau, yn enwedig ar ysgolion llai, a chanlyniad perfformiad a phroffil disgyblion ar broffil cyrhaeddiad cyffredinol ysgol. Cyfeiriwyd at yr angen i gyfarfod heriau cenedlaethol, materion yn ymwneud ag Arolwg Moderneiddio Addysg a’r argyfwng mewn perthynas â recriwtio a chadw Penaethiaid. Cadarnhawyd bod cyrsiau datblygu arwain a rheoli yn cael eu darparu a bod etheg gwaith partneriaeth cryf iawn wedi ei fabwysiadu gyda Phenaethiaid a Chyrff Llywodraethol. Pwysleisiodd y Cynghorydd E.W. Williams yr angen i roddi cyhoeddusrwydd i a hyrwyddo swyddi Penaethiaid yn Sir Ddinbych a chyfeiriodd at benodi Rheolwyr Busnes a Chyllid mewn ysgolion i gynorthwyo gyda dyletswyddau ariannol a gweinyddol. Teimlai y dylai bodolaeth Rheolwyr Busnes a Chyllid ar gyfer ysgolion gael ei ddefnyddio’n fwy effeithiol i werthu swyddi penaethiaid i ddarpar ymgeiswyr.

Ymatebodd y Pennaeth Addysg i gwestiwn gan y Cynghorydd G Sandilands a chadarnhaodd bod Sir Ddinbych yn gweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru a bod yna, ar draws Cymru, waith yn mynd rhagddo yn lobïo Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darpariaeth ariannol, yn enwedig mewn perthynas â’r categori 14 – 19. Rhoddodd y SEPO:S amlinelliad o ffrydiau ariannu 14-19 a chyfeiriodd at y gwelliannau a gafwyd mewn meysydd lle’r oedd cyllid wedi ei fuddsoddi.

Mewn ymateb i gwestiynau yn ymwneud ag Ysgol Uwchradd Dinbych, pwysleisiodd y Cynghorwyr C Hughes ac R J Davies a'r swyddogion y llwyddiant a'r lefel o welliant a gyflawnwyd yn yr ysgol yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, pwysleisiodd y Cynghorydd D Owens bwysigrwydd y llwyddiant a gafwyd mewn perthynas â darpariaeth Addysg o fewn yr Awdurdod o ran codi proffil y Sir a chynorthwyo gyda'i hadfywiad.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad ac yn cydnabod perfformiad ysgolion o gymharu gyda pherfformiad yn y gorffennol a meincnodau allanol.*

**7 CYNLLUN GWEITHREDU ESTUN**

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Addysg, a oedd yn manylu'r cynnydd a wnaed mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan Estyn ar ôl archwiliad 2012, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Esboniodd y Pennaeth Addysg bod prif ddarganfyddiadau adroddiad Estyn wedi dangos bod yr Awdurdod Lleol wedi cael 'Da' ar gyfer y tri chwestiwn allweddol:-

- Pa mor dda yw'r canlyniadau
- Pa mor dda yw'r ddarpariaeth
- Pa mor dda yw arweiniad a rheolaeth.

Roedd yr holl ddangosyddion eraill hefyd yn 'Dda' ac eithrio 3.1 'Arweinyddiaeth' a farnwyd yn 'Rhagorol'. Roedd adroddiad Estyn, Adroddiad ar Ansawdd Gwasanaethau Addysg Awdurdod Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn Sir Ddinbych, wedi ei gynnwys fel Atodiad 1. Er mwyn gwella ymhellach, gwnaed yr argymhellion canlynol gan Estyn:-

Argymhelliad 1: Gwella cywirdeb Asesiadau Athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

Argymhelliad 2: Adnabod yr holl wasanaethau i blant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a sefydlu system effeithiol i fesur effaith y gwasanaethau hyn i helpu'r Awdurdod a'i bartneriaid wybod os ydynt yn cynnig gwerth da am arian.

Roedd copi o Gynllun Gweithredu Estyn, Drafft Mai 2012, wedi ei gynnwys fel Atodiad 2 i'r adroddiad.

Gwnaed cynnydd yn erbyn yr holl gamau a nodwyd dan Argymhelliad 1 yng Nghynllun Gweithredu Estyn, ac eithrio 1.4. Y dyddiad cwblhau ar gyfer gweithgaredd dan 1.4 oedd Gorffennaf 2014. Roedd Atodiad 3 – Ffurflen Monitro Cynllun Gweithredu Estyn ac Atodiad 4 – Cyfnod Allweddol 3 – Pynciau Craidd – Asesiadau Athrawon 2012 yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag Argymhelliad 1.

Gwnaed cynnydd hefyd mewn perthynas â chamau a nodwyd dan Argymhelliad 2 ac a gynhwyswyd yng Nghynllun Gweithredu Partneriaethau, Atodiad 5 i'r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, amlinellodd y Pennaeth Addysg y broses ddilynol a fabwysiadwyd gan Estyn wrth ystyried y cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd A. Roberts, rhoddodd y Pennaeth Addysg fanylion y dyraniad ariannol a'r broses ar gyfer disgyblion unigol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Esboniodd y bu arolwg mawr o'r fformiwla ariannu a chrynhodd y gyllideb ddirprwyedig o ran y mecanwaith ariannu. Cadarnhaodd y Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd (SEPO:S) bod cymedroli'r broses safonau yn gadarn gydag athrawon yn gweithio mewn clystyrau.

Ymatebodd y SEPO:S i gwestiwn gan y Cynghorydd R.J. Davies mewn perthynas â rhoi hyfforddiant i athrawon i ddefnyddio Moodle. Esboniodd bod hyn wedi ei amlygu mewn coch oherwydd effaith gwaith rhanbarthol a'r ansicrwydd o ran pa staff a fyddai yn y pen draw yn gweithio i'r sir a phwy a fyddai'n gweithio i'r gwasanaeth rhanbarthol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg bod gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ysgol yn un o Flaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2012-17. Esboniwyd y gallai'r Pwyllgor, wrth fonitro'r Cynllun Gweithredu, gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni rhan o'r uchelgais uchod.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, diolchodd y Cadeirydd a'r aelodau i'r swyddogion am safon ragorol y gwaith a ymgymerwyd, ac fe:-

***BENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor:-*

*(a) Yn derbyn yr adroddiad a chydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma wrth ddelio ag argymhellion Estyn, a*
*(b) Yn cytuno bod adroddiad cynnydd pellach yn cael ei gynnwys ar flaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer mis Gorffennaf, 2013.*

## 8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Roedd copi o adroddiad gan y Cydgysylltydd Craffu, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ei Flaenraglen Waith, ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Roedd copi o flaenraglen waith y Cabinet wedi ei gynnwys fel Atodiad 3, ac roedd tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn hysbysu'r Aelodau o'r cynnydd ar eu gweithredu, wedi ei gynnwys fel Atodiad 4 i'r adroddiad.

Roedd ffurflen gynnig, a gynhwyswyd fel Atodiad 2, yn gofyn am gael ystyried eitem yn ymwneud ag Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru. Cytunodd yr Aelodau bod yr eitem hon yn cael ei chynnwys ar y flaenraglen waith ar gyfer Ebrill, 2013.

Cyfarfu Grŵp y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar 20fed Rhagfyr, pan benderfynwyd y dylid trosglwyddo adroddiad ar deledu cylch cyfyng o raglen waith

y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer Mawrth 2013, i flaenraglen waith y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar gyfer Ebrill, 2013.

Ystyriodd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ddrafft ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, fel y manylwyd yn Atodiad 1, a chytunwyd y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

Cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 21ain Chwefror, 2013:-

Arfarniad Perfformiad Blynyddol Cyngor AGGCC 2011/12 – cytunodd yr Aelodau, gan fod yr eitem hon wedi ei hystyried a'i derbyn gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel adroddiad cadarnhaol, ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad fel Adroddiad er Gwybodaeth.

Cyflwyno Cyfyngwyr Cyflymder a Rhifyddion Cylchdro yng Ngherbydau'r Cyngor – Ar gais Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad, cytunwyd bod adroddiad ar fanteision posibl a chostau cyflwyno dyfeisiau cyfyngu cyflymder/rhifydd cylchdro yng ngherbydau'r Cyngor ar flaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer Chwefror, 2013.

Cynllun Corfforaethol 2012/13 (Chwarter 3) - Esboniodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol y byddai'r adroddiad yn manylu'r dangosyddion a'r mesurau mewn perthynas â'r sefyllfa Waelodlin mewn cysylltiad â'r Cynllun Corfforaethol.

Cytunodd yr Aelodau y dylid cynnwys eitem ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor i'w hystyried yng nghyfarfod mis Gorffennaf y Pwyllgor. Cytunwyd hefyd gofyn i Grŵp y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor ystyried cydgysylltu eitem yn ymwneud â pherfformiad Menter Cefndy.

***PENDERFYNWYD -*** *yn amodol ar y newidiadau a'r cytundebau uchod, cymeradwyo'r Flaenraglen Waith fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Rhoddodd y Cynghorydd R J Davies grynodeb manwl o'r materion a drafodwyd ac a ystyriwyd yng nghyfarfod Herio Perfformiad Gwasanaeth – Gwasanaethau'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 28ain Tachwedd 2012, a oedd yn cynnwys materion yn ymwneud â:-.

- Contract Parc Ailgylchu ac arbedion Cyfleusterau Ailgylchu Deunyddiau.
- Trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Gwastraff Ailgylchadwy Cymysg.
- Contract Prosesu Gwastraff Bwyd.
- Prosiectau Gwastraff Gweddillol.
- Cydgysylltu Gwaith Glanhau Strydoedd.
- Amodau Gwaith Hyblyg Staff.
- Gwasanaethau Prydau Bwyd Ysgol.
- Materion Iechyd a Diogelwch.

***PENDERFYNWYD*** *– derbyn yr adroddiad a chydnabod y sefyllfa.*

Esboniodd y Cadeirydd y byddai Tîm Cyfnewid Dysgu gan Gymheiriaid Sir Ddinbych yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Craffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel rhan o ymarfer Astudiaeth Gwella Gwaith Craffu Swyddfa Archwilio Cymru.

*Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 p.m.*